



Dyddiad cyhoeddi: 21 Ebrill 2020

Diwydrwydd dyladwy Alstom

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 6 Ebrill 2020. Gofynnwch am y wybodaeth ganlynol:

Copi o'r asesiadau diwydrwydd dyladwy a wnaed ar y cwmni Alstom UK cyn dyfarnu'r contract trenau 'Dosbarth 175' iddynt y cyfeirir ato ar wefan Trafnidiaeth Cymru:

<https://news.tfwrail.wales/news/major-gbp-40-million-fleet-refresh-begins-at-transport-for-wales>

Cynhaliwyd asesiadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer darpariaeth cerbydau rheilffyrdd wedi'u trosglwyddo i ffurfio rhan o fflyd Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru fel rhan o broses gaffael. Rydym yn ystyried bod yr asesiadau diwydrwydd dyladwy hyn yn cynnwys gwybodaeth fasnachol gyfrinachol a phriodoldeb, ac y byddai ei datgelu yn debygol o niweidio buddiannau masnachol Alstom.

Mae'r esemptiadau canlynol i'r hawl mynediad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) wedi'u cymhwyso: Adran 43(1) ac Adran 43(2) (Niwed i Fuddiannau Masnachol). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n debygol o effeithio ar fantais gystadleuol Alstom. Er ein bod yn cydnabod y bydd llawer o ddiddordeb yn y diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd, rydym yn ystyried y byddai hyn yn niweidio ein gallu i ymgysylltu â chyflenwyr yn y dyfodol.

Mae defnyddio'r esemptiad hwn yn destun asesiad o'r budd cyhoeddus mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Yn yr achos hwn, mae'r niwed posibl o weithrediad effeithiol y broses gynnig yn ystyriaeth bwysicach na'r ffactorau o blaid datgelu, fel y budd cyhoeddus cyffredinol mewn tryloywder a didwylledd. Felly, mae'n debyg y byddai datgelu'n niweidio gallu Gwasanaeth Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i sicrhau'r gwerth gorau o'i brosesau caffael, gan arwain at gynnydd mewn costau i'r cyhoedd, naill ai drwy drethi neu gynnydd mewn prisiau, a gallu Alstom i gystadlu'n deg gyda chwmnïau eraill. Nifer cyfyngedig o gwmnïau sy'n gallu cynnig am gontractau o'r fath ac mae Alstom yn debygol o fod yn cystadlu am gontractau tebyg yn y dyfodol. Yn yr achos hwn rydym yn ystyried mai'r budd cyhoeddus fyddai sicrhau'r gwerth gorau o'r farchnad, tra'n parchu rhwymedigaethau ymhlyg a phenodol cyfrinachedd sy'n cael eu creu drwy'r broses gaffael.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod yr angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn agored a thryloyw, ond yn yr achos hwn gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o niweidio gallu TrC i sicrhau'r gwerth gorau o'r broses gaffael, a gallu Alstom i gystadlu â chwmnïau eraill, ystyrir bod y budd cyhoeddus o blaid defnyddio'r esemptiad.

Gofynnwch hefyd am gopi o gofnodion y bwrdd am unrhyw drafodaeth ar y cwmni Alstom UK ar gyfer y contract trenau. Cynhaliwyd y broses gaffael ar y trenau Dosbarth 175 gan Wasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru.



I roi cyd-destun, mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni nid-er-elw ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru gyda chylch gwaith i ddarparu polisi Llywodraeth Cymru. Trafnidiaeth Cymru yw asiant Llywodraeth Cymru o ran y Cytundeb Grant rhwng Gweinidogion Cymru a'r Partner Gweithredu a Chyflawni ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a darpariaeth Metro De Cymru. Mae'r Partner Gweithredu a Chyflawni yn sefydliad sector preifat - KeolisAmey Wales Cymru Ltd sy'n masnachu fel 'Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru'.

Dim ond i'r graddau y mae'n cadw gwybodaeth ar ran Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â chyflawni gofynion y Cytundeb Grant a grybwyllwyd eisoes y mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gymwys i KeolisAmey Wales Cymru Ltd. Nid yw cofnodion Bwrdd KeolisAmey Wales Cymru Ltd o fewn y categori o wybodaeth sy'n cael ei chadw ar ran Trafnidiaeth Cymru. Felly, nid yw'r wybodaeth hon gennym.

Nid yw Trafnidiaeth Cymru wedi trafod Alstom UK. Mae cofnodion Bwrdd Trafnidiaeth Cymru ar gael yma: [Cofnodion y Bwrdd | Trafnidiaeth Cymru \(trc.cymru\)](#).

Gweler y daflen wybodaeth amgaaedig am fanylion eich hawl i apelio.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru